

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL

08 Mai 2019

Yn bresennol: Mrs G Hayward (Cadeirydd)

Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd P Harries, Dr R Heath-Davies, Mrs J James, Cynghorydd M James, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens, Dr RM Plummer, Mr AE Sangster, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd S Yelland.

(Swyddfeydd yr APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 13.10p.m.)

1. Teyrnged

Tristwch o'r mwyaf i'r Cadeirydd oedd clywed am farwolaeth Ms June Skilton, Rheolwr Personél yr Awdurdod, yn ddiweddar. Dywedodd Mrs Hayward ei bod wedi dod i adnabod June yn dda iawn ers iddi ddod yn Aelod; roedd June bob amser yn siriol ac yn gymwynasgar ac yn swyddog proffesiynol craff iawn. Roedd yr angladd i'w chynnal yn Worthing yn ddiweddarach yn y mis, a byddai cynrychiolwyr yr Awdurdod yn mynd i'r angladd.

Cafwyd munud o dawelwch i ddilyn fel arwydd o barch ac er cof am June.

2. Gair o Groeso

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i'r cyfarfod i Ms Debbi Church a benodwyd yn ddiweddar i'r swydd Rheolwr Technoleg Gwybodaeth. Soniodd Mrs Hayward hefyd bod Ms Jessica Morgan wedi'i phenodi i'r swydd Rheolwr Cyllid Allanol tra bod Ms Nicy Couceiro ar gyfnod mamolaeth.

3. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Mr A Archer, Cynghorydd P Baker, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd M Evans a'r Cynghorydd M Williams.

4. Datgan Buddiannau

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

5. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2019 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2019.



6. Materion yn codi o'r cofnodion

Gan gyfeirio at Gofnod 7 - Rheoli meysydd parcio cyhoeddus yn Amroth, West Angle a Nolton Haven - dywedodd Dr R Heath-Davies ei bod yn y cyfarfod wedi mynegi ei phryder bod yr Awdurdod i bob golwg yn delio â'r mater parcio ceir mewn modd braidd yn dameidiog. Awgrymodd y dylai'r Awdurdod fod yn ystyried llunio datganiad polisi ar barcio, ac y byddai camau dilynol o weithredu yn deillio o'r dull cyfannol hwnnw.

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r Awdurdod yn mynd ar drywydd y mater hwn.

NODWYD.

7. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu digwyddiad yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a drefnwyd gan Mr Glenn Peters i archwilio'r modd yr oedd tai yn cael eu hadeiladu i ddiwallu anghenion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

NODWYD.

8. Adroddiadau cyfarfodydd Pwyllgorau'r Awdurdod

Cyflwynwyd adroddiadau cyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau i'w hystyried/er gwybodaeth.

PENDERFYNWYD:

- (a) nodi adroddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 06 a 25 Mawrth 2019;
- (b) mabwysiadu adroddiadau cyfarfodydd y Pwyllgorau/Panel canlynol:
 - (i) Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2019;
 - (ii) Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2019;
 - (iii) Pwyllgorau Personél a gynhaliwyd ar 03 a 10 Ebrill 2019, a'r
 - (iv) Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2019.

9. Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2018-19 a'r archwiliad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Mr Nick Selwyn, Mr Euros Lake a Mr Matt Brushett i'r cyfarfod.

Dywedwyd bod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol sy'n



edrych i'r dyfodol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Hefyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, roedd yn ofynnol iddo asesu i ba raddau yr oedd cyrff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy wrth bennu eu Hamcanion Llesiant, ac wedi hynny, yn cymryd camau i ddiwallu'r egwyddorion hynny.

Cyfeiriodd Mr Selwyn at yr Adroddiad Gwella Blynyddol, gan nodi y cydymffurfiwyd â holl ddisgwyliadau'r Awdurdod ac na chodwyd unrhyw bryderon difrifol. O ganlyniad, nid oedd unrhyw argymhellion ffurfiol wedi'u nodi ar gyfer yr Awdurdod, er bod un neu ddau o gynigion ar gyfer gwella.

Gan droi at yr adroddiad ar yr archwiliad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r archwiliad o weithio mewn partneriaeth a chydweithredu, dywedodd Mr Selwyn bod y prosiect arbennig hwn wedi'i gynnal o bob un o dri Awdurdod Parc Cenedlaethol Cymru, ac felly roedd hynny'n galluogi meincnodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn y pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf.

Dywedodd Mr Brushett eu bod wedi cynnal arolwg o weithio mewn partneriaeth, oedd wedi canolbwyntio ar ran yr Awdurdod yn y bartneriaeth â Fforwm Mynediad Lleol Sir Benfro a Phartneriaeth Natur Sir Benfro. Ar y cyfan, roedd canlyniadau'r arolwg wedi bod yn gadarnhaol, yn enwedig o ran y gwaith o gydweithredu, ac roedd yr ymddiriedaeth a'r parch rhwng y partneriaid yn amlwg iawn. Roedd o'r farn bod hyn yn amlygu'r diwylliant cadarnhaol o fewn yr Awdurdod a bod hyn yn dyst i lwyddiant y gwaith a wneir gan staff yr Awdurdod, oedd yn allweddol i'r partneriaethau dan sylw.

Aeth Mr Lake rhagddo i ddweud bod rhai pethau negyddol wedi dod i'r amlwg yn ystod yr arolwg, megis ei bod yn bwysig sicrhau gwerth am arian yn y gwaith sy'n cael ei wneud, bod yr un pwerau gan aelodau'r bartneriaeth, a'r angen i flaenoriaethu gweithio mewn partneriaeth gan fod yr adnoddau yn gyfyngedig. Roedd angen i'r Awdurdod edrych ar yr adnoddau sydd ar gael iddo a gwerthuso a monitro ei gyfraniad i'r bartneriaeth fyddai'n ei alluogi i feddwl yn fwy strategol am ei gyfraniad yn y dyfodol. Roedd yr adroddiad yn awgrymu rhai meysydd i'w gwella yn sgîl yr arolwg.

Ychwanegodd Mr Selwyn mai un o'r prif heriau sy'n wynebu'r Awdurdod, fel yn achos pob corff cyhoeddus ledled Cymru, oedd gwneud y newid arwyddocaol o ymgysylltu â phobl a chymunedau i gynnwys pobl a chymunedau yn ei waith. Byddai hyn yn cymryd amser, ac yn neges a gymerwyd ar draws pob awdurdod lleol. Yr heriau eraill oedd cyllid a'r angen i ddeall effaith peth o'r gwaith oedd yn cael ei wneud; roedd o'r farn



mai gwell weithiau yw gwneud llai, er bod hyn, wrth reswm, yn fater i'r Awdurdod ei ystyried.

Roedd yr Aelodau yn croesawu'r ddau adroddiad a'r negeseuon cadarnhaol oedd yn deillio ohonynt. Holwyd a fyddai cynllun gweithredu yn cael ei lunio, fyddai'n cael ei fonitro a'i adolygu. Atebodd y Prif Weithredwr na fyddai cynllun gweithredu penodol yn cael ei lunio, ond y byddai pob un o'r elfennau yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau neu fecanwaith priodol arall i sicrhau bod yr elfennau yn cael eu diwallu. Ychwanegodd Mr Selwyn bod Swyddfa Archwilio Cymru yn fwriadol heb sefydlu cynllun gweithredu ar gyfer y gwaith hwn gan fod angen i'r Awdurdod ymgorffori'r gwaith yn ei raglen waith. Fodd bynnag, roedd yn derbyn bod angen tracio'r cynnydd a wnaed.

Dywedodd y Cynghorydd Mrs D Clements ei bod yn eithaf anodd cynllunio rhaglen waith hirdymor yr Awdurdod pan fod yr arian gan Lywodraeth Cymru yn cyrraedd ar y funud olaf. Atebodd Mr Selwyn bod Llywodraeth Cymru wedi'i chynnwys yn yr adolygiad o'r 44 corff cyhoeddus yng Nghymru ac y byddai ei gydweithwyr yn tynnu sylw at faterion ariannu tymor byr yn ystod eu hadolygiad.

Dywedodd Dr R Heath-Davies bod gwersi ehangach i'w dysgu a'i bod yn edrych ymlaen at adroddiad cyffredinol Swyddfa Archwilio Cymru ar y 44 corff cyhoeddus a adolygwyd. Gofynnodd a oedd unrhyw ganllawiau ar arferion gorau wedi'u cyhoeddi ar gydnerthedd cefn gwlad y gallai'r Awdurdod eu defnyddio. Cyfeiriodd Mr Selwyn at nifer o gyhoeddiadau, y byddai'n eu rhoi i'r Prif Weithredwr i'w lledaenu'n ehangach. Fodd bynnag, pwysleisiodd y pwynt bod angen i'r Aelodau ddeall na allai'r Awdurdod wneud popeth, a bod rhaid iddo flaenoriaethu ei adnoddau er mwyn bod yn gynaliadwy.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am adroddiad trylwyr, diddorol oedd yn procio'r meddwl.

PENDERFYNWYD nodi'r Adroddiad Gwella Blynyddol 2018-19 a'r archwiliad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu.

10. Meysydd parcio

Dywedwyd bod angen ail-gadarnhau cyfarwyddiadau'r Awdurdod i'r Awdurdod Prifffyrdd er mwyn bwrw ymlaen â Gorchymyn Cyngor Sir Penfro (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd) Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2015 Gorchymyn Amrywio Rhif 1 2019 yn barod ar gyfer tymor codi tâl yn y meysydd parcio yn 2020.

Fel cyflwyniad, atgoffodd y Swyddog Ystadau yr Aelodau bod cyfres o



adroddiadau wedi cael eu cyflwyno i'r Aelodau ers 2016, gan arwain at adroddiad i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ar 29 Tachwedd 2017 oedd, yn gryno, wedi penderfynu cyflwyno'r darpariaethau newydd canlynol:

1. cyflwyno taliadau parcio mewn pedwar safle ychwanegol (West Angle, Penalun, Amroth a Nolton Haven), oedd ar hyn o bryd yn gweithredu fel safleoedd di-dâl;
2. ymestyn y diwrnod codi tâl ar draws pob safle sy'n codi tâl am ddwy awr ychwanegol o 5pm i 7pm, a
3. chynyddu'r gyfradd ddyddiol am barcio bysiau ar draws pob safle o £3 hyd at £8.

Yn dilyn hynny, cyflwynwyd adroddiad pellach i'r Awdurdod yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2018 pan oedd yr Aelodau wedi ail-gadarnhau eu cyfarwyddiadau i Gyngor Sir Penfro, fel yr Awdurdod Prifffyrdd, i fwrw ymlaen â Gorchymyn Cyngor Sir Penfro (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro) Gorchymyn Amrywio 2015 Rhif 1 2019. Fodd bynnag, roedd y Cyngor Sir bellach wedi gofyn i'r Awdurdod egluro ac ail-gadarnhau ei gyfarwyddiadau er mwyn cwblhau'r broses statudol. Roedd yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw felly yn nodi'n fanwl:

- A. y gweithgareddau codi ymwybyddiaeth cyn-ymgynggori a gynhaliwyd gan swyddogion yr Awdurdod gyda Chynghorau Cymuned Amroth, Angle, Penalun a Nolton a'r Garn;
- B. y broses ymgynghori cyhoeddus statudol, oedd yn cynnwys hysbysu'r cyrff statudol perthnasol yr ymgynghorir â hwy; hysbysiad cyhoeddus yn y Western Telegraph; rhoi pecynnau gwybodaeth mewn nifer o adeiladau cyhoeddus i'r cyhoedd eu harchwilio; gosod hysbysiadau cyhoeddus ym mhob un o'r llefydd parcio a restrir yn y gorchymyn, a hyrwyddo'r ymgynghoriad cyhoeddus ar wefan yr Awdurdod ac ar draws ei sianelau cyfryngau cymdeithasol.

Roedd manylion y tri deg wyth o sylwadau ar wahân a dderbyniwyd o ganlyniad i'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi'u nodi yn yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw. Roedd y wybodaeth a gasglwyd hefyd wedi'i ystyried fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Roedd amrywiol themâu wedi'u clustnodi, ac roedd ymateb yr Awdurdod i bob thema hefyd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

I gloi, argymhellodd y Swyddog Ystadau y dylai'r Aelodau ailadrodd y penderfyniadau a wnaed yn eu cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2017.

Roedd yr Aelodau yn anfodlon â'r ffaith eu bod yn gorfod ail-edrych ar y mater ar gais Cyngor Sir Penfro. Atebodd y Prif Weithredwr bod y swyddogion o'r farn bod y penderfyniad a wnaed fis Tachwedd 2018 i ail-



gadarnhau eu cyfarwyddiadau i'r Cyngor Sir yn gwbl eglur. Serch hynny roedd swyddogion y Cyngor Sir wedi gofyn am eglurhad pellach cyn y gellid cyflwyno'r mater gerbron y Cabinet i'w gymeradwyo.

Cododd rhai Aelodau bryderon am yr effaith y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar drigolion a'r busnesau yn y cymunedau dan sylw. Roeddent hefyd yn pryderu bod y mater yn cael ei drin yn dameidiog. Roedd angen elfen o hyblygrwydd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Atebodd y Swyddog Ystadau bod y mater hwn wedi bod yn destun trafod ers 2016, pan oedd fframwaith a chyfiawnhad rhesymegol dros ddulliau'r Awdurdod wedi'u nodi. Roedd o'r farn bod y dulliau hyn yn rhesymol a phwysleisiodd mai cysondeb oedd y ffordd ymlaen yn ei farn ef.

PENDERFYNWYD:

- (a) cymeradwyo ymatebion y swyddogion i'r themâu a ddeilliodd o'r ymgynghori cyhoeddus a nodwyd yn yr adroddiad gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw;
- (b) bod yr Awdurdod yn bwrw ymlaen â Gorchymyn Cyngor Sir Penfro (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd) Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2015 Gorchymyn Amrywio Rhif 1 2019 i sicrhau'r canlyniadau canlynol:
 - (i) cyflwyno taliadau parcio mewn pedwar safle ychwanegol (West Angle, Penalun, Amroth a Nolton Haven) oedd ar hyn o bryd yn safleoedd di-dâl. Y taliadau hynny fydd:
 - Hyd at 30 munud: dim tâl;
 - Hyd at 1 awr: £1;
 - Hyd at 2 awr: £2;
 - Hyd at 3 awr: £3;
 - Dyddiol: £5
 - (ii) ymestyn y diwrnod codi tâl ar draws pob safle codi tâl (9am i 5pm ar hyn o bryd) o ddwy awr ychwanegol i gynnwys y cyfnod rhwng 5pm a 7pm, a
 - (iii) chynyddu'r gyfradd ddyddiol am barcio bysiau ar draws pob safle o £3 hyd at £8.
- (c) bod yr Aelodau yn ail-gadarnhau eu cyfarwyddiadau i Gyngor Sir Penfro (fel yr Awdurdod Prifffyrdd perthnasol) i gwblhau'r broses statudol angenrheidiol yn barod ar gyfer dechrau tymor codi tâl yn y meysydd parcio yn 2020.

(Pleidleisiodd Dr R Heath-Davies a'r Cynghorwyr P Kidney, R Owens ac A Wilcox yn erbyn y penderfyniad uchod, tra bod y Cynghorwyr Mrs D Clements a P Harries wedi ymatal rhag pleidleisio.)

11. Cynllun Rheoli Cyrchfannau Sir Benfro



Ymddiheurodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cefn Gwlad, Cymunedol ac Ymwelwyr am y ffaith nad oedd y Cynllun Rheoli Cyrchfannau drafft wedi'i gynnwys yn y papurau oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw. Dosbarthwyd y ddogfen berthnasol yn y cyfarfod, a rhoddwyd amser i'r Aelodau ei darllen.

Dywedodd bod Partneriaeth Cyrchfannau Sir Benfro yn cynnwys nifer o bartneriaid, gan gynnwys Cyngor Sir Penfro, Twristiaeth Sir Benfro, PLANED, Croeso Cymru a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol. Nod y Bartneriaeth oedd darparu ystod eang iawn o wasanaethau twristiaeth a chefnogaeth i'r sector twristiaeth ehangach.

Roedd y Bartneriaeth wedi mynd drwy gyfnod o lanw a thrai yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond ers 2018 roedd awydd i adnewyddu'r dulliau presennol a datblygu'r diwydiant twristiaeth mewn ffordd gynaliadwy. Felly, cynhaliwyd digwyddiad o ymgysylltu â'r diwydiant, gyda'r nod o roi cychwyn ar ddull newydd o reoli cyrchfannau a marchnata yn Sir Benfro. O ganlyniad, cytunwyd i gomisiynu gweledigaeth o'r newydd a chynllun busnes ar gyfer y Bartneriaeth drwy wneud cais am gyllid LEADER i dalu am gyngor ymgynghoriaeth arbenigol a mabwysiadu Cynllun cyn derfynol ar Reoli Cyrchfannau i helpu i ganolbwyntio'n strategol ar gyflwyno mesurau twristiaeth yn ystod cyfnod o newid. Fel partner yn y Bartneriaeth, gofynnwyd i'r Awdurdod fabwysiadu'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau cyn derfynol.

Roedd yr Aelodau yn croesawu'r ddogfen, ond codwyd pryderon ynghylch y ffaith nad oedd cynaliadwyedd (e.e. dim cyfeiriad penodol at effeithiau newid yn yr hinsawdd a/neu golli bioamrywiaeth) yn ymddangos unrhyw le yn y ddogfen. Hefyd roedd angen cynllun trafndiaeth clir i reoli cyrchfannau, e.e. drwy atal y llif i'r cyrchfannau mawr mwyaf prysur a'i symud i ardaloedd llai prysur yn y Parc. Yn ogystal, barnwyd ei bod yn bwysig bod y ddogfen y cyfeirio at iaith a diwylliant y sir, allai helpu i hyrwyddo cyrchfannau allweddol yn Sir Benfro.

Dywedwyd y byddai'r corff newydd yn drafftio Cynllun tymor hwy, ac y byddai'r Aelodau yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau ar y Cynllun hwn maes o law.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau Sir Benfro 2019/20 fel y ddogfen allweddol i lywio gwasanaethau a gweithgareddau cysylltiedig â thwristiaeth yr Awdurdod dros y 12-18 mis nesaf.

12. Dyfarnu cymorth grant ychwanegol i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro



Dywedodd y Rheolwr Cyllid bod cyllid grant ychwanegol o £638,250 wedi dod i law oddi wrth Lywodraeth Cymru fis Mawrth 2019 ar gyfer gweithgareddau/prosiectau refeniw a chyfalaf. Yn ogystal, derbyniwyd £510,000 pellach i'r Awdurdod fod yn warchodwr cyllid i gynnal Llwybr Arfordir Cymru mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru sy'n rheoli'r Llwybr.

Gan y byddai rhywfaint o'r arian a ddyrannwyd i'r Awdurdod yn cael ei wario yn 2019/20, gofynnwyd am gymeradwyaeth i ddiwygio Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2019/20 yn briodol, ac yn unol â llythyr grant Llywodraeth Cymru. Byddai'r cronfeydd wrth gefn angenrheidiol wedi'u clustnodi yn cael eu creu ym mlwyddyn ariannol 2018/19.

Roedd y llythyr grant yn amlinellu'r modd yr oedd yr arian a ddyrannwyd i Lwybr Arfordir Cymru i'w wario, ac felly ceisiwyd cymeradwyaeth i amrywio Rheolau Sefydlog Ariannol yr Awdurdod o ran yr elfen ariannu a glustnodwyd ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru. Roedd Adran 77 o Safonau Ariannol yr Awdurdod yn rheoleiddio talu grantiau ac yn nodi bod angen cymeradwyaeth yr Awdurdod i dalu grant dros £20,000. Er mwyn dosbarthu arian Llwybr Arfordir Cymru yn brydlon ac yn effeithiol, cynigiwyd felly, ac yn benodol mewn perthynas â dyrannu cronfeydd Llwybr Arfordir Cymru, bod yr Awdurdod yn atal y Safonau Ariannol ynghylch grantiau dros £20,000.

Roedd y Prif Weithredwr yn croesawu'r cyllid ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru, ond yn ymwybodol o'r ffaith nad oedd yr Aelodau yn rhan o'r broses o wneud y penderfyniadau ac nad oedd hyn yn cyd-fynd yn gyfforddus â'r Aelodau yn penderfynu ar flaenoriaethau prosiectau. Dywedodd y byddai'n trefnu Gweithdy i'r Aelodau drafod y mater hwn yn y dyfodol.

Soniodd yr Aelodau am yr angen i reoli bod yr adnoddau yn gynaliadwy, yn enwedig pan oedd penodi swyddog yn y cwestiwn.

PENDERFYNWYD cymeradwyo creu cronfeydd priodol wrth gefn wedi'u clustnodi, diwygio Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2019/20, ac amrywio'r Safonau Ariannol o ran yr arian a ddyrannwyd i Lwybr Arfordir Cymru.

13. Dirprwy Swyddog Monitro – cadarnhau'r penodiad

Atgoffodd y Prif Weithredwr yr Aelodau bod penderfyniad wedi'i wneud mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Personél a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2017, i gytuno ar yr egwyddor o greu rôl Dirprwy Swyddog Monitro Dros Dro, i'w llenwi yn fewnol am gyfnod o 12 mis. Roedd adolygiad o'r rôl honno i'w wneud cyn diwedd y cyfnod hwnnw.



Roedd o'r farn bod y rôl, a gyflawnir ar hyn o bryd gan y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd, wedi gweithio'n dda ac wedi sicrhau parhad yn y gwasanaeth pan nad oedd y Swyddog Monitro ar gael. Cynigiodd felly bod y rôl yn rôl barhaol.

Roedd Mrs J James yn dymuno cofnodi'r ffaith bod y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd, yn ei barn hi, wedi rhoi gwasanaeth rhagorol ar ben ei dyletswyddau arferol. Mewn ymateb i ymholiad gan Dr R Plummer, cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod y cyflog yn gysylltiedig â mynegai.

PENDERFYNWYD bod y swydd Dirprwy Swyddog Monitro yn cael ei gwneud yn barhaol a bod y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd yn parhau yn y swydd hon.

14. Llechfeddiant Parc Trewent

Dywedwyd bod yr Awdurdod yn 2001 wedi caffael rhydd-ddaliad darn mawr o dir yn Freshwater East o'r enw The Burrows. Yn y cyfnod ar ôl i'r Awdurdod gaffael y tir, daeth yn amlwg bod Trewent wedi bod ac yn parhau i lechfeddu tir sy'n ymestyn dros ardal o rhyw 300m² o deitl cofrestredig yr Awdurdod, ac mae'r defnydd hwn wedi parhau hyd heddiw.

Er mwyn hwyluso rhan newydd arfaethedig o lwybr caniataol fyddai'n croesi ymyl gogleddol y tir dan sylw, roedd y Swyddog Ystadau wedi dod i gytundeb â pherchennog Parc Trewent i reoleiddio'r llechfeddiant hanesyddol parhaus. Byddai hyn yn golygu trosglwyddo teitl papur y tir i berchnogion Parc Trewent am bris nominal o £1, i gynnwys rhwymedigaeth arnynt i adeiladu ac wedyn cynnal ffens ddiogel i wahanu'r tir dan sylw yn barhaol o'r llwybr troed caniataol newydd arfaethedig.

PENDERFYNWYD cymeradwyo trosglwyddo rhyw 300m² o dir yn The Burrows, Freshwater East, yn unol â'r polisi llechfeddiannu a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod, ar y telerau a amlinellwyd yn yr adroddiad.

15. Ymddiswyddiad y Swyddog Monitro

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith y byddai Swyddog Monitro yr Awdurdod, Mr Rhys Stephens, yn gadael yr Awdurdod ddiwedd mis Mai. Ychwanegwyd bod Mr Stephens wedi cael effaith fawr ers iddo ymuno â'r Awdurdod ac y byddai'n gweld eisiau ei gyngor craff, doeth a chllir.

Diolchodd Mr Stephens y Cadeirydd am ei geiriau caredig, gan nodi ei fod wedi mwynhau gweithio i'r Awdurdod.



16. Cyfarfod olaf y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd

Dywedodd y Prif Weithredwr bod Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod yn mynychu eu cyfarfod olaf o'r Awdurdod gan y byddai cyfnod eu swydd yn dod i ben ar 31 Mai 2019. Teimlai bod hwn yn ddiwedd cyfnod gan fod Mrs Hayward a Mr Sangster wedi ymuno â'r Awdurdod ychydig cyn iddo yntau ymuno.

Aeth rhagddo i ddweud bod Mrs Hayward a Mr Sangster ill dau dros y 9 mlynedd diwethaf wedi gwneud cyfraniad aruthrol i'r Awdurdod. Roeddent wedi cynrychioli'r Awdurdod ar nifer o gyrff allanol ac wedi bod yn Gadeiryddion amrywiol Bwyllgorau. Roedd Mrs Hayward wedi cynrychioli'r Awdurdod mewn nifer o ddigwyddiadau ar hyd a lled y sir a thu hwnt, ac roedd ei chyfraniad i'r Awdurdod yn enfawr.

Diolchodd Mr Sangster i'r Prif Weithredwr am ei eiriau caredig. Dywedodd bod ganddo farn gadarnhaol am y Parc Cenedlaethol ar hyd yr amser, a'i fod yn deall pa mor effeithiol yw'r Awdurdod. Roedd y Parc wedi gorfod mynd drwy nifer o newidiadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gydag amrywiol adolygiadau yn cael eu cynnal a newidiadau cyfeiriad posibl. Fodd bynnag, roedd yr Awdurdod wedi goroesi, yn bennaf oherwydd nifer o egwyddorion cyson - gwerthoedd y Parc Cenedlaethol, fyddai'n parhau i'r dyfodol.

Roedd wedi mwynhau gweithio gyda'r Prif Weithredwr a'i dîm, ac roedd eu heffeithiolrwydd a'u hymroddiad a'u hangerdd i'r Parc Cenedlaethol wedi creu argraff arno. O ran yr Aelodau, roedd o'r farn mai'r hyn oedd yn cymell bob yr un ohonynt oedd eu hymrwymiad i werthoedd; er ei fod yn gadael, byddai'n gwylio gyda diddordeb yr hyn y byddai ei gydweithwyr yn ei wneud yn y dyfodol. Gofynnodd i'r Aelodau beidio ag anghofio dyletswydd y Parc Cenedlaethol yn ogystal â'r dibenion, a dymunodd yn dda i bawb yn y dyfodol.

Dywedodd Mrs Hayward ei bod wedi mwynhau'n fawr bod yn Aelod o'r Awdurdod, a bod yn gallu gweithio ar ran yr Awdurdod. Bu'n bleser ac yn ffrind, ac roedd wedi dysgu llawer yn ystod ei chyfnod yn y swydd; roedd wedi bod yn rhan bwysig o'i bywyd.

Cytunodd bod yr Awdurdod wedi bod drwy rai amserau cythryblus, gyda nifer o adolygiadau yn cael eu cynnal. Ychwanegodd bod rhai wedi bod yn amheus o'r Awdurdod yn y gorffennol, ond bellach y farn oedd bod yr Awdurdod yn werthfawr ac yn gadarn.

Roedd hi wedi mwynhau gweithio gyda'r Prif Weithredwr, oedd yn ei barn hi yn wleidyddol graff ac oedd wedi ymdrin â gwleidyddion â gofal a doethineb. Cyfeiriodd at y Rheolwr Cyllid, oedd wedi arwain yr Aelodau



yn fedrus mewn cyfnodau o lymder, ac roedd yn hyderus bod yr Awdurdod yn ddiogel o dan ei arweiniad. Cyfeiriodd hefyd at y Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc a'i thîm; roeddent yn weithwyr cwbl broffesiynol, oedd yn rheoli gobeithion a breuddwydion pobl, ac yn cynnig atebion. Yn olaf, roedd yn dymuno diolch i'r tîm Gwasanaethau Democrataidd am eu holl gefnogaeth ac am wneud ei bywyd yn llawer haws.

I gloi, dywedodd ei bod, ac y byddai bob amser, yn eiriolwr ymroddedig ar ran y Parc Cenedlaethol, ac y byddai'n gweld eisiau yr Aelodau a'r swyddogion yn fawr iawn.

17. Eithrio'r cyhoedd

PENDERFYNWYD y dylid eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitem ganlynol oherwydd y tebygolrwydd y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

(Pleidleisiodd y Cyngorydd R Owens yn erbyn y penderfyniad uchod gan ei fod o'r farn nad oedd digon o wybodaeth wedi ei ddarparu i'w argyhoeddi y dylid eithrio'r cyhoedd.)

18. PorthstINAN/St Justinians - rheoli cyfleusterau ymwelwyr yn y dyfodol

Bu'r Aelodau yn ystyried cyflwyniad gan y Swyddog Ystadau ar reoli cyfleusterau ymwelwyr yn y dyfodol ym MhorthstINAN. Cyflwynodd strategaeth arfaethedig ar gyfer ceisio datrys y sefyllfa bresennol a sicrhau a diogelu rheolaeth yr ardal yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD bod yr Aelodau yn cefnogi bod y swyddogion yn ymchwilio ymhellach i'r mater, cyn belled â bod adroddiadau rheolaidd ar y camau ymlaen yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau.

(Ataliodd Dr R Heath-Davies ei phleidlais ar y penderfyniad uchod.)

